**Ymateb y Llywodraeth:** ***Rheoliadau Mangreoedd a Cherbydau Di-fwg (Cymru) 2020***

**Pwynt Craffu ar Rinweddau 1: Gofynnir i Lywodraeth Cymru nodi sut y mae'n ystyried bod y Rheoliadau hyn yn cydymffurfio ag Erthygl 8 o'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol.**

1. Mae'r Pwyllgor wedi gofyn i Lywodraeth Cymru nodi sut y mae'r newid yn y gyfraith yn cael ei gyfiawnhau ar sail budd y cyhoedd, yn gymesur â nod budd y cyhoedd a ddilynir ac yn cael ei wneud yn unol â chyfraith ddomestig a rhyngwladol a chyda sicrwydd cyfreithiol. Yn benodol, mae'r Pwyllgor wedi nodi'r canlynol:

    - *Mae'r Rheoliadau yn dileu eithriadau ar gyfer mathau penodol o weithgareddau gwaith o asesu a yw annedd yn weithle at ddibenion adran 7 o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017 ("Deddf 2017"). Effaith dileu'r eithriadau hyn yw y caiff pob math o weithgareddau gwaith ei gynnwys wrth asesu a yw annedd yn weithle ac felly bydd yn ofynnol i ragor o anheddau fod yn ddi-fwg.*

    - *Mae'r Rheoliadau yn darparu bod cerbydau a berchnogir yn breifat i fod yn ddi-fwg pan fydd plentyn yn y cerbyd.*

    - *Yn y ddwy sefyllfa hyn, mae'r Rheoliadau yn effeithio ar sut y mae pobl yn ymddwyn yn eu heiddo a berchnogir yn breifat, boed eu cartref eu hunain neu eu cerbyd.*

2. Cynhaliwyd asesiad manwl iawn o'r darpariaethau sydd wedi eu cynnwys yn y Rheoliadau hyn er mwyn sicrhau eu bod yn gydnaws â'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol a Chonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn. O ystyried sylwadau'r Pwyllgor, bydd Llywodraeth Cymru yn diwygio'r Memorandwm Esboniadol i adlewyrchu hyn.

**Pwynt Craffu ar Rinweddau 2: Byddai'r Pwyllgor yn ddiolchgar pe byddai Llywodraeth Cymru yn cadarnhau ei bod yn bwriadu dod â'r darpariaethau y cyfeirir atynt uchod i rym ar neu cyn 1 Mawrth 2021.**

3. Fel y’i nodir gan y Pwyllgor, gwnaed Gorchymyn Cychwyn ar 25 Medi 2020. Roedd y Gorchymyn hwn yn cychwyn y darpariaethau gwneud rheoliadau yn Neddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017 (“Deddf 2017”) a oedd yn galluogi’r Rheoliadau i gael eu gosod. Daeth y darpariaethau hyn i rym ar 29 Medi 2020.

4. Yn ddarostyngedig i ganlyniad y ddadl yn y Cyfarfod Llawn (a amserlennir i’w chynnal ar 20 Hydref 2020), y bwriad yw y gwneir ail Orchymyn Cychwyn. Bydd y Gorchymyn hwn yn cychwyn gweddill y darpariaethau ym Mhennod 1 o Ran 3 (a’r Atodlenni cysylltiedig) o Ddeddf 2017 ar 1 Mawrth 2021. Byddai hyn yn golygu y gallai’r darpariaethau ynghylch y drefn ddi-fwg newydd yn Neddf 2017 weithredu’n sylweddol o 1 Mawrth 2021, ochr yn ochr â’r Rheoliadau.